

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO – DIDDYMU BWRDD CYFLOGAU AMAETHYDDOL CYMRU A LLOEGR

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.”

Y Cefndir

2. Gosodwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a welir ym mharagraff 1 uchod, gan Alun Davies AC, Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (“SO”) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y “Cynulliad Cenedlaethol”). Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan SO 29.2. Mae SO29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu ddiben sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (y “Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2012. Gellir ei weld yma:

[Bill documents – Enterprise and Regulatory Reform Bill 2012-13 – UK Parliament](#)

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau (“BIS”). Prif ddiben y Bil yw annog twf tymor hir a symleiddio rheoleiddio. Nod y Bil yw;

- ailwampio'r system tribiwnlys cyflogaeth, a thrawsnewid y modd y datrysir anghydfodau;
- Gwellu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gorfodi cystadleuaeth a gallu marchnadoedd i gystadlu, drwy gryfhau'r gyfundrefn a gwella cyflymder a rhagweladwyedd i fusnesau;
- gosod dibenion yr UK Green Investment Bank a sicrhau ei fod yn annibynnol;
- cryfhau'r fframwaith ar gyfer pennu cyflog cyfarwyddwyr drwy gyflwyno pleidleisiau gorfodi;

- estyn y cynllun Awdurdod Sylfaenol, lleihau beichiau arolygu ar fusnesau a chryfhau'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymalau machlud ar reoleiddio;
- diddymu deddfwriaeth ddiangen, gan leihau'r baich ar fusnesau a dinasyddion.

Darpariaethau yn y Bil y mae gofyn cael cydsyniad arnynt

5. Diwygiad a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Rhagfyr 2012 yw'r ddarpariaeth berthnasol sydd yn y Bil. Gellir ei weld yma:

[List of amendments to be moved in Grand Committee – Enterprise and Regulatory Reform Bill 2012-13 – UK Parliament](#)

6. Os bydd y diwygiad yn cael ei basio diddymir y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol dros Gymru a Lloegr ("AWB") a bydd Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 yn gymwys i weithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr

7. Mae'r Bil yn rhychwantu Cymru a Lloegr

8. Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 5 a 6 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a nodir ym mharagraff 1 (Agriculture, forestry, animals, plants and rural development) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Goblygiadau defnyddio'r Bil hwn i wneud y ddarpariaeth

9. Cred Llywodraeth Cymru nad y Bil hwn yw'r cyfrwng priodol i wneud y ddarpariaeth hon i ddiddymu'r AWB Cafwyd trafodaeth a chytunwyd ar ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 ("PBA") i sicrhau bod buddiannau Gweinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwarchod pan oedd bwriad i ddiddymu cyrff cyhoeddus trawsffiniol drwy Orchymyn PBA. Mae defnyddio'r Bil yn trechu gofynion cydsynio'r PBA ac felly ystyriwn y dylai'r diwygiad perthnasol gael ei dynnu'n ôl i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

10. Mae Llywodraeth Cymru'n credu mai'r unig ffordd gywir o barhau â diddymu'r AWB yw trwy ddilyn y gweithdrefnau statudol y sonnir amdanynt yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Rydym wedi gwneud hyn yn hollol glir, a bod Llywodraeth Cymru yn dymuno cadw swyddogaethau'r AWB yng Nghymru. Gellir gwneud hyn drwy Orchymyn PBA ochr yn ochr â diddymu'r AWB yn Lloegr.

11. Mae rhagor o wybodaeth am farn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ar gael yn fy natganiad ysgrifenedig i'r Aelodau dyddiedig 21 Rhagfyr 2012:

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/awb/?skip=1&lang=CY>

Y goblygiadau ariannol

12. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol dros Gymru a Lloegr.

Alun Davies AC

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni
Ewropeaidd
Ionawr 2013**